ORAL HISTORY SOCIETY

# Cynllun Gwers: Paratoi ar gyfer cyfweliad Hanes Llafar gyda dosbarth llawn neu grŵp

gan Julia Letts a Helen Lloyd

# Beth yw Hanes Llafar?

| | |
|---|---|
| **Ystyriwch** | Ystyriwch yr hen ddyddiau. Pa mor ddiddorol fyddai clywed pobl o'r cyfnod yn trafod eu bywydau? (Gwraig milwr Rhufeinig, ysgubwr simdde Oes Fictoria...) |
| **Gwrandewch** | Gwrandewch ar recordiadau o bobl yn siarad am fywyd yr hen ddyddiau. Chwaraewch glipiau sain. |
| **Trafod** | Trafod cyfweliad dosbarth/grŵp. ('Magwraeth yn y 1960au' yw'r esiampl). |

# Helpu pobl i siarad (Ymarfer 1)

- Mewn parau, ymarferwch ofyn i'ch gilydd i siarad am eich atgofion cyntaf o'r ysgol am rhyw 3 munud.
- Adroddwch yn ôl ar yr hyn ddysgoch chi. (Os oes offer recordio ar gael, recordiwch un o'r cyfweliadau byr a'i chwarae nôl)

**Pethau i'w hystyried:**

- Peidiwch holi gormod o gwestiynau. Gall hyn atal y person rhag adrodd y stori yn naturiol.
- Defnyddiwch gwestiynau cyffredinol fel “Soniwch am eich wythnosau cyntaf yn yr ysgol”. Ceisiwch beidio gofyn cwestiynau fydd yn rhoi ateb un gair.

# Helpu pobl i siarad (Ymarfer 2)

- Dewiswch chi (yr athro neu'r arweinydd ieuenctid) atgof personol sy'n hawdd siarad amdano e.e. gwyliau, priodas teulu, atgof ysgol personol.
- Rhowch wybodaeth gyffredinol am yr atgof – gyda ffotograffau os yn bosib.
- Rhybuddiwch y dosbarth/grŵp y byddwch chi'n rhoi ateb un gair os gallwch chi, felly rhaid iddyn nhw ofyn cwestiynau agored e.e. “Disgrifiwch eich teulu” nid “Oedd eich teulu yn dlawd?”
- Gofynnwch iddyn nhw ystyried trefn y cwestiynau. Beth fydden nhw angen ei wybod gyntaf? Sut allan nhw eich annog chi i ‘greu golygfa’ cyn gofyn am fanylion penodol, neu eich teimladau?

# Paratoi ar gyfer y cyfweliad 1

- Rhowch wybodaeth sylfaenol am y person sy'n cael ei gyfweld: dyddiad geni; milltir sgwâr, gwaith rhieni; brodyr a chwiorydd; blwyddyn ymfudo ac ati, os yn berthnasol. (Gall hyn gael ei ysgrifennu a'i adrodd ar ddechrau'r cyfweliad, i osgoi cwestiynau agoriadol byr.)
- Dangoswch ffotograffau os yn bosibl.
- **Trafodaeth ddosbarth: beth ydyn ni am ei ddysgu?** Mae llawer o bobl ifanc yn meddwl bod pob cyfweliad fel holiadur i berson enwog – *“Beth yw eich hoff ffilm?”, “Pwy ydych chi'n ei edmygu?”.* Gall cwestiynau fel hyn fod yn addas yn nes ymlaen, ond esboniwch bod neidio o un pwnc i'r llall yn ddryslyd a bod hi’n well mynd drwy hanes eu bywyd mewn trefn.
- Wrth i'r disgyblion gynnig cwestiynau, cofnodwch nhw ar fwrdd gwyn neu siart mewn trefn addas, nes bod gyda chi amlinell cyfweliad.

# Paratoi ar gyfer y cyfweliad 2

Dyma esiampl o drefn holi:

- Teulu; milltir sgwâr; ysgol; gweithgareddau tu allan i'r ysgol; symud i'r wlad/tref/dinas hon (os yn berthnasol)
- Atgofion cyntaf o wlad/tref/pentref
- Atgofion am siopau yn y 1960au?
- Bwyd?
- Dillad?
- Technoleg?
- Teithio?
- Pobl allwch chi eu cofio
- Unrhyw atgofion arbennig eraill?
- Beth allwch chi ei gofio orau, wrth edrych nôl?

# Paratoi ar gyfer y cyfweliad 3

- Esboniwch y bydd y rhestr yn eu helpu gyda'r cyfweliad, ond taw gwir grefft cyfweld yw gwrando ar y person sy'n siarad a holi cwestiwn dilynol.
- Os yw'r cyfweliad yn cael ei gynnal yn syth, gall y disgyblion ddefnyddio'r drefn holi ar y bwrdd. Os yw'r cyfweliad yn digwydd wedyn, gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu eu trefn holi eu hunain.
- Os na allan nhw feddwl am gwestiwn, beth am ofyn “Beth arall allwch chi ei gofio?”

# Y cyfweliad

- Paratowch y lleoliad a phrofi'r recordiwr.
- Penderfynwch pwy sy'n holi'r cwestiynau, ac ym mha drefn.
- Dywedwch ei bod hi'n bwysig peidio codi llaw neu edrych fel eich bod ar fin ymddiheuro wrth i'r person siarad. Allwch chi ddim gwybod beth i'w holi cyn eu clywed nhw'n siarad!
- Galwch y person sy'n cael ei gyfweld ac esbonio'r broses.
- Recordiwch y cyfweliad.
- Tua'r diwedd, gwnewch yn siŵr fod rhywun yn gofyn 'cwestiwn clo' ("Wrth edrych yn ôl...")
- Os oes amser, gofynnwch i'r person am unrhyw atgofion eraill.
- Diffoddwch y recordiwr a gwirio'r recordiad.
- Gofynnwch i'r person lofnodi ffurflen ganiatâd. (Esboniwch pam i'r dosbarth – gweler Moeseg a hawlfraint.)

# Gweithgareddau dilynol

Yn dibynnu ar oed y dosbarth/grŵp, gallech chi eu hannog i:

- ysgrifennu llythyrau diolch
- ysgrifennu crynodeb o'r hanes neu dynnu llun
- ysgrifennu stori ffuglen neu ddrama wedi'i gosod yn y 1960au
- os yw'r recordiad yn un da, gwnewch 'benderfyniadau cynhyrchu' ar y darnau gorau i'w defnyddio
- trawsgrifio neu olygu'r atgofion
- rhannu'r wybodaeth gyda dosbarth arall
- cymharu tystiolaeth lafar â ffynonellau ysgrifenedig a ffotograffau. Beth maen nhw wedi'i ddysgu a'i ddeall o'r cyfweliad?